OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 666

# Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005

## RHAN 8

Cynhyrchion a Fwriedir ar gyfer Warysau neu Storfeydd Llongau

### Cymhwyso Rhan 8

**44.** Mae'r Rhan hon yn gymwys i gynhyrchion os—

(a) warws mewn parth rhydd, warws rydd neu warws y tollau, sydd wedi'i lleoli yn nhiriogaeth dollau'r Gymuned, neu

(b) storfa long sy'n cydymffurfio ag Erthygl 13 o Gyfarwyddeb 97/78/EC ac sydd wedi'i lleoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig yw sefydliad gyrchfan y cynhyrchion.

### Gwybodaeth ychwanegol sydd i'w rhoi ymlaen llaw

**45.**—(1) Ni chaiff neb gyflwyno cynnyrch y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo i Gymru, na rhoi cynnyrch o'r fath gerbron mewn safle arolygu ar y ffin ar gyfer cyrchfan yng Nghymru, oni bai bod y milfeddyg swyddogol y rhoddwyd hysbysiad iddo, yn unol â rheoliad 17, o gyflwyno neu o roi'r cynnyrch gerbron, wedi'i hysbysu—

(a) a fwriedir mewnforio'r cynnyrch yn y pen draw;

(b) os na, a yw'n gynnyrch tramwy; ac

(c) sut bynnag, a yw'r cynnyrch yn cydymffurfio â'r amodau mewnforio.

(2) Rhaid i'r wybodaeth ym mharagraff (1) gael ei rhoi yn ysgrifenedig a chaniateir ei chynnwys yn yr hysbysiad o gyflwyno'r cynnyrch neu o'i roi gerbron a roddwyd yn unol â rheoliad 17.

### Gwiriad ffisegol o gynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio

**46.** Pan fo'r dogfennau gofynnol yn dangos bod cynnyrch y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo yn gynnyrch nad yw'n cydymffurfio, dim ond os yw'r milfeddyg swyddogol o'r farn ei fod yn peri risg i iechyd anifeiliaid neu i iechyd y cyhoedd y mae angen i unrhyw berson, y mae'n ofynnol iddo o dan reoliad 0 ei roi i'r milfeddyg swyddogol wrth y safle arolygu ar y ffin, neu sicrhau ei fod yn cael ei roi iddo, ganiatáu i'r milfeddyg swyddogol, neu gynorthwyydd a benodwyd yn unol â rheoliad 6(1)(b) neu 6(2)(c) gyflawni gwiriad corfforol ar y cynnyrch.

### Gwahardd cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio o warysau

**47.** Ni chaiff neb gyflwyno cynnyrch nad yw'n cydymffurfio i warws mewn parth rhydd, warws rydd na warws y tollau yng Nghymru.